

Hiraeth sydd y tu hwnt i gysur

“Pam y gwariwch arian am yr hyn nad yw’n fara, a llafurio am yr hyn nad yw’n digoni?”(adn. 2)

Beth am ddarllen Eسعia 55:1–13 ac yna myfyrio

Mae’n amlwg, yn ôl ein hastudiaethau y diwrnodau diwethaf, fod y rhan fwyaf o bobl wedi profi y teimlad o hiraeth o fod ymhell oddi cartref yn y byd yma, gan fod rhywbeth mwy pwysig yn eu disgwyl. Dywed Aldous Huxley, “Yn hwyr neu’n hwyrach, mi fydd rhywun yn gofyn i Beethoven neu i Shakespeare, ‘ai hyn yw y cwbl?’” Mae C. S. Lewis yn disgrifio hyn fel yr hiraeth sydd yn ddigysur, yn newyddion o wlad ddiarth. Nid oes angen i chi fod yn Gristion i brofi yr hyn yr wyf yn cyfeirio ato. Bu Awstin yn sôn am hyn ymhell cyn ei dröedigaeth. Bu raid i C. S. Lewis frwydro yn galed ac ymladd yn erbyn tarddiad yr hiraeth na ellir ei gysuro, ymladd yn erbyn Duw, y gwirionedd mai Duw crefydd traddodiadol oedd tarddiad yr hiraeth yma. Mae Lewis yn disgrifio ei ymchwil am y Duw hwn yn y geiriau canlynol: “Gellid disgrifio’r ymchwil fel ymchwil llygoden am gath.”

Mae hyn yn ein harwain at gwestiwn sydd yn rhaid aros uwch ei ben dros y dyddiau nesaf. Os yw’n wir fod yna hiraeth am y nefoedd wedi ei adeiladu i mewn i’n calon ni, sut mae y rhan fwyaf o bobl yn delio gyda hyn? Un ffordd, yn sicr, yw’r esgus nad yw elfen ddirgel ein bodolaeth yn bodoli o gwbl. Mae’n ffaith ryfedd mewn bywyd fod yr agwedd yma ar y natur ddynol, hiraeth yr enaid am gartref, heb ei hastudio’n fanylach. Pam tybed? Efallai gan nad yw’n syrthio i’r categorïau arferol mewn astudiaethau meddyliol. Ni ellir ei labelu, ni ellir ei rhoi mewn blwch. Oherwydd hyn, ni all gwŷr a gwragedd lunio llwybr i’w hosgoi, gan fynnu nad yw’r hiraeth yn bodoli. O geisio ei hosgoi yr ydym yn gwadu’r ffaith.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 63:1–11; 143:6; 119:174

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut y disgrifiodd y salmydd y byd yma?
2. Sut y mae’n siarad dros ddynoliaeth?

Gweddi

Fy Nhad a fy Nuw, er ei bod yn ymddangos yn rhyfedd bellach fod pobl am geisio osgoi’r gwirionedd yma, yr wyf yn ymwybodol, cyn i mi gyfarfod â thi, fy mod i yr un fath. Bellach, cefais hyd i’r hyn yr oedd fy enaid yn hiraethu amdano. Am hynny, rwy’n llawenhau. Amen.